

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2017 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc  
Amser: 09.00 0300 200 6565  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 21)
- 2 **Deisebau newydd**
  - 2.1 **P-05-718 Cyflogau GIG Cymru**  
(Tudalennau 22 – 26)
  - 2.2 **P-05-723 Sefydlu System Bleidleisio Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Etholiadau Cyngorau Lleol Cymru.**  
(Tudalennau 27 – 33)
  - 2.3 **P-05-729 Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas**  
(Tudalennau 34 – 40)
  - 2.4 **P-05-730 Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol**  
(Tudalennau 41 – 54)
  - 2.5 **P-05-731 Gwerthu Tir a Lonydd Mynediad yn Abercwmboi**  
(Tudalennau 55 – 58)
  - 2.6 **P-05-732 Amseroedd Aros Annerbyniol ar gyfer Cleifion y GIG yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Wrecsam/Ysbyty Wrecsam Maelor**  
(Tudalennau 59 – 65)
  - 2.7 **P-05-733 Dim gweithredu pellach ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) yng Nghymru o gwbl**  
(Tudalennau 66 – 73)
- 3 **Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**



## **Iechyd**

**3.1 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn**  
(Tudalennau 74 – 75)

**3.2 P-04-621 Cadw'r Uned Famolaeth dan Arweiniad Ymgynghorwyr yn Ysbyty  
Glan Clwyd ar Agor**  
(Tudalennau 76 – 77)

**3.3 P-04-663 Bwyd yn Ysbytai Cymru**  
(Tudalennau 78 – 80)

## **Iaith Gymraeg**

**3.4 P-676 Creu Pencampwr yr Iaith Gymraeg mewn Cymunedau yng Nghymru**  
(Tudalennau 81 – 84)

## **Gyllid a Llywodraeth Leol**

**3.5 P-04-681 Caniatáu i'r Cyhoedd Recordio Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yng  
Nghymru**  
(Tudalennau 85 – 86)

## **Gymunedau a Phlant**

**3.6 P-05-728 Diogelu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf**  
(Tudalennau 87 – 89)

## **Economi a'r Seilwaith**

**3.7 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes**  
(Tudalennau 90 – 92)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Item 5.

**5 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari  
(CA125)**  
(Tudalennau 93 – 111)

## 6 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 112 – 123)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

## **P-05-718 – Cyflogau GIG Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Chris Neilsen ar ôl casglu 24 llofnod.

### **Geiriad y ddeiseb**

Sut all hi fod yn iawn bod gweithwyr y GIG yng Nghymru, sy'n gwneud swyddi angenrheidiol, yn ennill cyflog mor isel â £7.80 yr awr pan fo Llywodraeth Cymru yn ariannu'r fath swyddi di-ddim â Chomisiynydd y Dyfodol ar £100k y flwyddyn a Chomisiynydd y Gymraeg ar £90k a nifer o swyddi newydd tebyg. Mae'r haenau newydd hyn o swyddi di-ddim yn wirion a dylid eu diddymu a rhoi'r arian i staff y GIG sydd ar gyflogau isel.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

Dwyrain Casnewydd

Dwyrain De Cymru

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Ionawr 2017  
Petitions Committee | 17 January 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-718

Teitl y ddeiseb: Cyflogau GIG Cymru

**Testun y ddeiseb:** Sut all hi fod yn iawn bod gweithwyr y GIG yng Nghymru, sy'n gwneud swyddi angenrheidiol, yn ennill cyflog mor isel â £7.80 yr awr pan fo Llywodraeth Cymru yn ariannu'r fath swyddi di-ddim â Chomisiynydd y Dyfodol ar £100k y flwyddyn a Chomisiynydd y Gymraeg ar £90k a nifer o swyddi newydd tebyg. Mae'r haenau newydd hyn o swyddi di-ddim yn wirion a dylid eu diddymu a rhoi'r arian i staff y GIG sydd ar gyflogau isel.

### Y cefndir

Corff annibynnol yw Corff Adolygu Cyflogau'r GIG (NHSPRB) sy'n gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU ar gyflogau, telerau ac amodau gwaith pob aelod o staff a delir o dan yr Agenda ar gyfer Newid ac a gyflogir yn y GIG. Mae hyn yn cynnwys gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yng Nghymru. Wrth lunio ei argymhellion mae'r Corff Adolygu yn cymryd tystiolaeth gan y pedair llywodraeth yn y DU, undebau llafur a chyflogwyr y GIG. Rhaid iddo ystyried y canlynol wrth lunio ei argymhellion:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell staff sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
- yr arian sydd ar gael i'r Adrannau Iechyd, fel y nodir yn Nherfyn Gwariant Adrannol (DEL) y Llywodraeth;
- targed chwyddiant y Llywodraeth;
- yr egwyddor o gyflog cyfartal am waith o werth cyfartal yn y GIG;
- y strategaeth gyffredinol y dylai'r GIG osod cleifion wrth wraidd popeth a wna a'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni hynny.

Cyhoeddodd yr NHSPRB '[NHS Pay Review Body. Twenty-Ninth Report 2016](#)' sy'n nodi argymhellion 2016/17 ar y codiad cyflog ar gyfer staff y GIG, gan gynnwys **cynnydd o 1 y cant** ar gyfer pob pwynt cyflog yn yr Agenda ar gyfer Newid o 1 Ebrill 2016 yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod y NHSPRB yn llunio argymhellion ar adeg o newid cymhleth ar gyfer y GIG ledled y DU:

All four countries are aiming simultaneously to meet demanding efficiency targets and deliver transformational change through service redesign and new models of care, whilst continuing to respond to every day service requirements and meet the demands of regulators.

Public sector pay policy has been set out by the UK government for the next four years and provides the context for our recommendations in England. The policy position for Scotland, Wales and Northern Ireland is short term for this year's remit, given that these countries all have elections in May 2016. However, with public money remaining constrained, it seems highly likely that public sector pay restraint will continue for some years. We will have an increasingly important role to monitor the sustainability of this policy for our remit group, in whole or in part. Agenda for Change pay scales need to be seen as competitive, to attract and retain the calibre of staff required to support and deliver high quality patient care. This means taking a longer term view as well as making our annual recommendations.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Derbyniodd Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol, yr argymhellion ar gyflogau a wnaeth Corff Adolygu Cyflogau'r GIG a'r Corff Adolygu Taliadau Meddygon a Deintyddion – yn unol â'r cynigion a wnaed mewn manau eraill yn y DU.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chylchlythyr cyflogau [AfC\(W\)1/2016](#) i Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau'r GIG ar 30 Mawrth 2016, yn eu hysbysu am y trefniadau cyflog ar gyfer gweithwyr sy'n destun y cytundeb Agenda ar gyfer Newid yng Nghymru ac am y cytundeb i weithredu'r cynnydd Cyflog Byw. Noda fel a ganlyn:

1. The living Wage will increase from 1 January 2016 for all directly employed NHS staff to £8.25 per hour. Eligible staff will have their pay for January – March 2016 adjusted and arrears paid accordingly. From 2017 onwards, any future changes to the Living Wage hourly rate, which are accepted for implementation in NHS Wales, will be aligned to the NHS pay award date.
2. The revised pay scales for 2016–17, set out in this circular, apply from 1 April 2016.
  - All pay spine points have increased by one per cent, consolidated
  - The on-call allowance will increase by one per cent to £18.54 per session for weekdays and weekends and £37.09 per session for public holidays with effect from 1 April 2016
  - The sleeping-in allowance will increase by one per cent to £31.93 with effect from 1 April 2016.

3. The provisions of incremental pay progression will continue to apply.

Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y bydd codiadau cyflog, gan gynnwys y cyflog byw, yn costio tua £40 miliwn y flwyddyn. Wrth dynnu sylw at y cynnydd parhaol o 1 y cant yng nghyflogau'r holl staff Agenda ar gyfer Newid yn y GIG yng Nghymru, dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd na fyddai unrhyw godiad cyflog i Uwch Swyddogion Gweithredol y GIG.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Vaughan Gething AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-718  
Ein cyf/Our ref VG/06471/16

Mike Hedges AM  
Chair, Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

[government.committee.business@wales.gsi.gov.uk](mailto:government.committee.business@wales.gsi.gov.uk)

15 December 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 10 October on behalf of the Petitions Committee.

We are proud that NHS Wales employees have received the Living Wage Foundation's recommended rate since 1 January 2015. The lowest earning employed NHS staff saw an increase of up to 5% and more than 2,100 members of staff were positively affected by this change. The Living Wage Foundation's recommended rate is currently £8.25 per hour, notably higher than the "national living wage" of £7.20 per hour. The Welsh Government will continue to support the concept of a genuine living wage as a route to addressing some of the issues associated with low pay and income poverty.

I hope this is helpful.

Yours sincerely,

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and responses received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Ionawr 2017  
Petitions Committee | 17 January 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

**Rhif y ddeiseb:** P-05-723

**Teitl y ddeiseb:** Sefydlu System Bleidleisio Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Etholiadau Cynghorau Lleol Cymru.

Rydym ninnau sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu system bleidleisio cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

#### Cefndir

Mae cynghorwyr lleol yng Nghymru yn cael eu hethol gan ddefnyddio system y cyntaf i'r felin (y system FPTP), fel sy'n digwydd yn Lloegr. Gall pob adran etholiadol (a elwir yn 'wardiau' gan amlaf) ddychwelyd un cynghorydd neu nifer o gynghorwyr.

Mae'r rhai sydd o blaid y system FPTP yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn sicrhau cyswllt clir rhwng cynghorwyr a'u hetholwyr. Mae gwrthwynebwyr yn tynnu sylw at y ffaith mai anaml iawn y bydd y system FPTP yn rhoi canlyniad sy'n adlewyrchu barn gyffredinol yr etholwyr. Maent hefyd yn dweud bod y system hon yn arwain at nifer fawr o seddi diwrthwynebiad lle ceir ond un ymgeisydd.

Yn 2002, roedd mwyafrif o aelodau [Comisiwn Sunderland](#) yn argymhell cyflwyno system y bleidlais sengl drosglwyddadwy (y system STV) ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2001 i archwilio'r trefniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a chyflwyno adroddiad arnynt. Fodd bynnag, barn leiafrifol y Comisiwn hwnnw oedd y byddai'r system STV yn arwain at wardiau mwy, ac y byddai hynny'n gwneud cynghorwyr yn llai atebol ac yn llai lleol. Y farn leiafrifol oedd y dylid cadw'r system FPTP, ond gyda rhanbarthau etholiadol un aelod yn unig.

Mae cynghorwyr lleol yn yr Alban wedi cael eu hethol gan ddefnyddio'r system STV ers 2007. Mae cynghorwyr yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cael eu hethol gan ddefnyddio'r system STV.

Mae Aelodau rhanbarthol y Cynulliad yn cael eu [hethol](#) gan ddefnyddio un ffurf ar system gynrychiolaeth gyfrannol, sef y system Aelodau ychwanegol.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Hyd yn hyn, nid yw'r broses honno wedi canolbwyntio ar newid y system bleidleisio. Fodd bynnag, yn ei lythyr at y Pwyllgor dyddiedig 4 Ionawr 2017, awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai deddfiad Bil Cymru ymestyn grym Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r system bleidleisio a'r drefn gofrestru mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol. Dywedodd ei fod yn bwriadu ymgynghori ar becyn o gynigion maes o law, ac y byddai rhai ohonynt, o bosibl, yn cael eu treialu mewn isetholiadau lleol. Roedd llythyr Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn bwrw amheuaeth ynghylch a yw diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yn fater sydd wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn y Trydydd Cynulliad (2007–2011), cynigiodd Peter Black o'r Democratiaid Rhyddfrydol [Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol](#) a fyddai wedi caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â'r "trefniadau ar gyfer ethol aelodau awdurdodau lleol a'r system etholiadol a ddefnyddir i'w hethol". Cafodd y Gorchymyn hwn ei [drafod](#) gan y Cynulliad ar 11 Mehefin 2008, ond **ni chafodd** ei gymeradwyo.

Yn ystod [y gwaith craffu a wnaed yng Nghyfnod 1](#) ar *Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)* ym mis Chwefror 2013, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau nad oedd gan y Cynulliad gymhwysedd ym maes diwygio etholiadol.

Cyflwynwyd [gwelliannau](#) i'r *Bil Llywodraeth Leol* ym mis Mehefin 2015—eto gan Peter Black o'r Democratiaid Rhyddfrydol—a fyddai wedi cyflwyno'r bleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Fodd bynnag, gwrthodwyd y gwelliannau hyn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

*Cywirwyd y briff hwn ar 18 Ionawr 2017 i ddileu datganiad a oedd yn awgrymu bod y system etholiadol Pleidlais Amgen yn fath o gynrychiolaeth gyfrannol.*



Mark Drakeford AM/AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-723  
Ein cyf/Our ref MD/05450/16

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

15 November 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 31 October regarding the petition to establish a Proportional Representation system of voting for Welsh Local Council elections.

Presently, responsibility for and powers over Local Government electoral systems lies with the UK Government. The Wales Bill, which is currently progressing through Parliament, when passed would transfer competence over Local Government electoral matters to the National Assembly for Wales.

Following the passing of the Wales Bill I would welcome any views in relation to Local Government elections, including the voting system.

Best wishes,

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 30

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-723

Mike Hedges AC  
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Ty Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

4 Ionawr 2017

Annwyl Mike,

Ers ysgrifennais atoch ar 15 Tachwedd, rwyf wedi rhoi mwy o ystyriaeth i oblygiadau'r Mesur Cymru a'r cyfle ei deddfiad yn debygol o gynnig drwy gyfrwng diwygiadau i bleidleisio a chofrestru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

Fy mwriad yw ymgynghori ar becyn o gynigion, rhai ohonynt, maes o law, efallai ei dreialu mewn is-etholiadau lleol. Yn fy marn i dylai awdurdodau lleol gael y dewis o ddulliau amgen o ethol i'r system 'y cyntaf i'r felin' os dymunant ac y gallai hyn fod yn rhan o becyn diwygio.

Er ei bod yn wir bod eisoes gan y Cynulliad gymhwysedd mewn perthynas â "trefniadau etholiadol" ar gyfer llywodraeth leol, byddai unrhyw gynnig deddfwriaethol delio â'r system bleidleisio gofyn am asesiad o'r eithriadau i'r cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o "cofrestru a gweinyddu etholiadol".

Bydd deddfu'r Mesur Cymru yn ehangu cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas ag etholiadau, gan ein galluogi i ddatblygu polisi mewn perthynas â dyfodol etholiadau lleol a'r Cynulliad.

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-723 Establish Proportional representation voting system for Welsh Local Council election – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 11.01.16**

FAO

Chair and committee members

I would like make a formal request to defer my petition for next month meeting because of current Welsh bill on pipe line. And I believe this bill can make a difference for my petition.

Also the two different replies committee needed to looking to.

## **P-05-723 – Sefydlu System Bleidleisio Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Etholiadau Cynghorau Lleol Cymru.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mohammed Sarul Islam ar ôl casglu 202 llofnod bapur.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym ninnau sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu system bleidleisio cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau'r 22 o gynghorau yng Nghymru

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru



## Eitem 2.3

### **P-05-729- Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Lewis ar ôl casglu 15 llofnod.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Bu cyfyngiadau cyflymder yn nhwnelau Bryn-glas ac o'u cwmpas ar gerbytyffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar yr M4 ers 2011, ac maent yn achosi diflastod i fodurwyr di-rif bob dydd. Cynigir y dylid tynnu'r holl gyfyngiadau cyflymder yn yr ardal hon a dychwelyd at y terfyn cyflymder cenedlaethol i gyfeiriad y dwyrain a'r gorllewin.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Caerffili
- Dwyrain De Cymru

## Deiseb: Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Ionawr 2016  
Petitions Committee | 17 January 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-729

Teitl y ddeiseb: Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas

Testun y ddeiseb:

Bu cyfyngiadau cyflymder yn nhwnelau Bryn-glas ac o'u cwmpas ar ffyrdd cerbydau tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar yr M4 ers 2011, ac maent yn achosi diflastod i fodurwyr di-rif bob dydd. Cynigir y dylid tynnu'r holl gyfyngiadau cyflymder yn yr ardal hon a dychwelyd at y terfyn cyflymder cenedlaethol i gyfeiriad y dwyrain a'r gorllewin.

### Cefndir

Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd rhwng Cyffordd 24 (Coldra) a Chyffordd 28 (Parc Tredegar) yw'r ffordd brysuraf yng Nghymru ac mae'n cario tua 100,000 o gerbydau bob dydd. Fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Terfyn Cyflymder Amrywiadwy ar hyd yr 8 milltir (13km) hwn yn 2011. Caiff y system ei hadnabod fel cynllun Terfyn Cyflymder Amrywiadwy yr M4 yn ne-ddwyrain Cymru ac, yn ôl gwefan Llywodraeth Cymru, cafodd ei gyflwyno "fel ffordd o leihau tagfeydd a gwella diogelwch a sicrhau bod amseroedd teithio yn fwy dibynadwy." Mae'r system Terfyn Cyflymder Amrywiadwy yn disodli'r system camerâu cyflymder cyfartalog a osodwyd yn 2009 i gadw traffig yn symud hyd at 50mya tra bod gwaith gwella'r llwybr yn cael ei gyflawni.

### System Signalau Awtomatig a Chanfod Digwyddiadau ar Draffyrdd (MIDAS)

Mae terfynau cyflymder amrywiol ar yr M4 rhwng cyffyrdd 24 a 28 yn cael eu gweithredu'n awtomatig gan system o synwryddion sy'n rhan o arwyneb y ffordd a elwir yn System Signalau Awtomatig a Chanfod Digwyddiadau ar Draffyrdd (MIDAS). Ei hegwyddor sylfaenol

yw cadw traffig yn symud drwy addasu'r terfyn cyflymder, gan wneud teithiau'n fwy diogel ac yn fwy dibynadwy.

Mae cyfrol 9, adran 1, rhan 2 ([TD 45/94 \(PDF, 57KB\)](#)) o'r [Design Manual for Roads and Bridges](#) yn cynnwys y meini prawf safonol ar gyfer system MIDAS ac mae'n nodi:

The areas to be covered by these systems are sections of motorways which have features that may lead to frequent queues or incidents. A prime aim of MIDAS is to **protect the back of traffic queues, which have formed or are about to form, by automatically setting suitable signals to warn approaching traffic. This will achieve a speed of operation and accuracy unattainable by manually operated systems.** Such systems can also be used with variable message signs to give advance warning of queues and incidents enabling drivers to seek alternate routes if they so choose.

Rheolir y cynllun Terfyn Cyflymder Amrywiadwy gan [Traffig Cymru](#), y mae ei dîm ystafell reoli yn gweithredu ac yn monitro'r system ar ran Llywodraeth Cymru o [Ganolfan Rheoli Traffig De Cymru](#) yng Nghaerdydd. Mae dogfen Traffig Cymru/Llywodraeth Cymru [Your Questions Answered \(PDF, 2.9MB\)](#) yn nodi:

At present, the section is vulnerable to congestion build-up as **traffic flows exceed capacity** (the approximate average traffic flow is 2,188 vehicles per lane per hour compared with 1,800 vehicles recommended by design standards). Combined with varying gradients and tight bends that reduce visibility for the driver, the level of congestion contributes to a **local accident rate higher than the national motorway average**, which included nine fatalities between July 2006 and June 2009.

Drwy'r rhan hon o'r draffordd, caiff y terfyn cyflymder gorfodol ei addasu yn unol ag amodau traffig er mwyn sicrhau bod cerbydau'n symud yn raddol. Yn ystod cyfnodau heb dagfeydd a heb ddigwyddiadau, nid yw'r arwyddion ar gyfer y system Terfyn Cyflymder Amrywiadwy yn weithredol ac mae'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn berthnasol. Yn ystod y cyfnodau prysur o ran traffig neu pan fydd digwyddiad, bydd synwryddion y system yn canfod y tagfeydd ac yn cyfrifo'r terfyn cyflymder gorau posibl ar gyfer y swm o draffig. Yna, caiff terfynau cyflymder eu harddangos ar yr arwyddion electronig sydd uwchben y lonydd neu ar ochr y ffordd i leihau'r risg o wrthdrawiadau o gerbydau sy'n agosáu at gefn ciwiau. Pan fydd llif y traffig yn tawelu, ni fydd angen arwyddion y cynllun Terfyn Cyflymder Amrywiadwy mwyach a bydd y ffordd gerbydau'n dychwelyd i weithredu'n ôl yr arfer. Ochr yn ochr â'r system awtomataidd, bydd gweithredwyr awdurdodedig y ganolfan reoli yn monitro'r rhwydwaith ffyrdd a gallant ymyrryd os bydd angen.

Mewn llythyr at y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith dyddiedig 22 Tachwedd 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod terfyn cyflymder dros dro o 50mya ar hyn o bryd tua'r gorllewin at dwnelau Bryn-glas oherwydd dibyniaeth barhaus ar system oleuadau dros dro a osodwyd er mwyn caniatáu ailagor y twnnel yn gyflym ar ôl tân ym mis Gorffennaf 2011. Ar ôl blaenoriaethu [gwaith adnewyddu](#) ar yr eger tua'r gorllewin, rhagwelir y gellir cael gwared ar y terfyn cyflymder o 50mya dros dro erbyn mis Ebrill 2017.

## Gorfodi'r Terfyn Cyflymder Amrywiadwy

Caiff camerâu gorfodi cyflymder eu gosod ar nenbontydd uwchben gyda'r camerâu yn cael eu gweithredu ar ôl canfod cerbyd sy'n teithio'n gyflymach na'r terfyn cyflymder sydd mewn grym ar y pryd. Mae gan y system [Gymeradwyaeth angenrheidiol y Swyddfa Gartref](#) (HOTA) sy'n caniatáu ei ddefnydd at ddibenion gorfodi. Caiff gorfodaeth cyflymder ledled Cymru ei rheoli a'i chydgysylltu gan [GanBwyll](#), sef partneriaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys yr holl Awdurdodau Prifffyrdd yng Nghymru a'r pedwar heddlu yng Nghymru. Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar y camerâu ac yn eu gosod ar Draffordd yr M4 a'r heddlu, fel yr awdurdod gorfodi, sy'n gyfrifol am y gwaith gorfodi o ddydd i ddydd.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 17 Ionawr 2011 gosododd Llywodraeth Cymru [Reoliadau Traffordd yr M4 \(O Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 23A \(Magwyr\) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 \(Cas-bach\)\) \(Terfynau Cyflymder Amrywiadwy\) 2011](#) (Rheoliadau 2011) gerbron y Cynulliad er mwyn galluogi cyflwyno system terfyn cyflymder amrywiol ar Draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23A (Magwyr) a Chyffordd 29 (Cas-bach) a'r slipffyrdd cyfagos. Cafodd y rheoliadau hyn eu disodli yn ddiweddarach gan [Reoliadau Traffordd yr M4 \(Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A \(Magwyr\) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 \(Cas-bach\)\) \(Terfynau Cyflymder Amrywiadwy\) 2015](#) (Rheoliadau 2015) a gafodd eu gosod gerbron y Cynulliad ar 31 Mawrth 2015 a daethant i rym ar 21 Ebrill 2015. Mae'r [Memorandwm Esboniadol \(PDF, 130KB\)](#) i Reoliadau 2015 yn nodi y canfu archwiliad fân wallau yn y disgrifiadau o hyd y cynllun yn yr atodlen i Reoliadau 2011 a bod Rheoliadau 2015 yn cywiro'r gwallau hynny. Mae'r memorandwm esboniadol yn egluro ymhellach:

An audit found minor errors in the scheme length descriptions in the schedule to the 2011 Regulations, and there are some overlaps between areas covered by the 2011 Regulations and areas covered by other road traffic orders. This discrepancy is making the police and Go-Safe, who perform a management function for prosecutions relating to exceeding speed limits, **wary of enforcing the lower speed limits on drivers**. The issues about possible conflicts and overlaps with pre-existing SIs at entry/exit slip roads throughout the VSL scheme should not affect the enforcement of the VSL on the M4 itself. However these issues, if not resolved, may be raised as part of any legal challenge and could be used to try and **undermine the validity of the VSL scheme**. Our enforcement partners (the police and Go-Safe) **are unwilling to enforce compliance while this risk of legal action remains**. Data analysis by officials shows that **compliance with the speed limit is gradually diminishing**. For example, at a sample location displaying a 50mph setting, approximately **85% of vehicles were driven below the speed camera capture threshold at the start of the scheme**. This figure is now **approximately 79%**. This shows that the **full benefits of the scheme are not being realised without the enforcement aspect**. In order for our enforcement partners to proceed with confidence, these Regulations correct the errors in the 2011 Regulations.

Ar 25 Gorffennaf 2016, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru lansiad ymgyrch diogelwch newydd ar gyfer y rhan hon o'r M4. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ymgyrch yn cynnwys

cam addysg ac ymwybyddiaeth cychwynol, gan gynnwys "cyfnod gras", ac yna cyfnod gorfodi ac erlyn. Dywedodd [trydariad gan GanBwyll](#) ar 20 Medi 2016 y dechreuodd gorfodaeth ar 26 Medi 2016.

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod system terfyn cyflymder amrywiadwy ar waith ar hyd y rhan hon o'r M4 er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd. Mae'r llythyr hefyd yn nodi yr ystyrir bod y [prosiect arfaethedig sy'n ymwneud â choridor yr M4 o amgylch Casnewydd](#) yn ateb cynaliadwy, hirdymor i'r problemau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r M4 bresennol o amgylch Casnewydd. Mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ar y prosiect a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 14 Rhagfyr 2016, datgelodd Llywodraeth Cymru fod yr "asesiadau diweddaraf yn dangos y bydd lefelau'r traffig yn y dyfodol, gan ystyried y cynigion diweddaraf ar gyfer y Metro, yn parhau i dyfu" gyda'r traffig ar yr M4 o amgylch Casnewydd "yn dal yn rhy drwm, gan greu problemau difrifol sy'n gwaethygu". Cadarnhaodd y datganiad y bydd "Arolygwyr Annibynnol am ystyried y Prosiect mewn ymchwiliad y penderfynir arno gan yr Arolygiaeth Gynllunio ac a fydd yn dechrau ar 28 Chwefror 2017".

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn ymateb i [gwestiwn ar effaith y cynllun Terfyn Cyflymder Amrywiadwy ar lif traffig](#) gan William Graham AC yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Chwefror 2013, dywedodd y Prif Weinidog Carwyn Jones:

Mae'r arwyddion presennol yn awgrymu bod **tagfeydd yn llai difrifol yn dilyn sefydlu'r system**. Mae'r system yn lleihau'r ciwio sy'n deillio o ofnyion ar y rhwydwaith ar adegau brig yn hytrach na chael gwarded arno'n gyfan gwbl. **Bydd asesiad llawn yn cael ei gynnal pan fydd digon o wybodaeth wedi'i chasglu i ddarparu asesiad ystadegol dibynadwy.**

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-729  
Ein cyf/Our ref KS/07160/16  
Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

22 November 2016

*Dear Mike*

Thank you for your letter of 4 November regarding petition P-05-729 Removal of M4 Speed Restrictions at the Brynglas tunnels.

A variable speed limit system is in place along this stretch of the M4 to ensure the safety of road users. It uses sensors in the road to detect the start of traffic build up that could cause congestion. If this happens, the mandatory speed limit is automatically adjusted to keep the traffic flowing. When no speed limit is indicated, the section reverts to the national speed limit.

It should be noted that there is only a temporary 50mph speed limit in place on the westbound approach to the Brynglas tunnels. Following the tunnel fire in July 2011 a temporary lighting system was installed to allow the tunnel to reopen as quickly as possible. Usually, the lighting within the tunnel should adjust automatically depending on the amount of natural light outside. This is the case in the eastbound tunnel. However, the temporary system in the westbound tunnel is not variable. As a result, 50mph is the safest speed limit to have in place for the time being. There are no speed restrictions in place in the eastbound tunnel other than when the variable speed limit system is in operation.

We began works to refurbish the Brynglas tunnels on 20 June with completion expected by February 2018. The mechanical and electrical systems, including lighting, will be replaced as part of these works. The westbound tunnel bore will be refurbished before the eastbound bore and removal of the temporary 50mph speed limit on the westbound bore is anticipated by April 2017. Further information on the refurbishment work is available on our website: <http://gov.wales/topics/transport/roads/schemes/m4/brynglas-tunnels/?lang=en>

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. **Tudalen y pecyn 09** Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The proposed M4 Corridor around Newport project is considered to be the sustainable, long-term solution to the social, environmental and economic problems associated with the existing M4 around Newport. It forms an essential part of a vision for an efficient integrated transport system in Wales. Further information regarding the project can be found at [www.gov.wales/m4newport](http://www.gov.wales/m4newport).

*Yours ever,  
Ken*

**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

### P-05-730- Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan UNISON Wales ar ôl casglu 2,192 llofnod.

#### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

- a. Gynyddu cyfanswm cyllid (refeniw) allanol i awdurdodau lleol i o leiaf y lefelau hynny a oedd yn berthnasol yn 2013/14 mewn termau real.
- b. Cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n darparu 'pŵer cymhwysedd cyffredinol' i awdurdodau lleol yng Nghymru.
- c. Annog awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau presennol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i rannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac i ymchwilio a masnachu drwy ddatblygu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cyflenwi i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r sector preifat yn fwy cyffredinol.
- d. Gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ryddhau ffrydiau refeniw presennol drwy, er enghraifft, ailariannu neu ddisodli cynlluniau PFI ar ddelerau mwy ffafriol, gan ddefnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan gyfraddau llog hanesyddol isel.
- e. Ymgymryd â chefnogi gwaith y Comisiwn Annibynnol Materion Ariannol Llywodraeth Leol Cymru

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gweld gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau lleol yng Nghymru, ac rydym o'r farn, drwy weithredu'r camau hyn y gall Llywodraeth Cymru helpu i atal difrod pellach i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn lleol; er, rydym yn cydnabod fod y camau hyn yn ddim ond rhan o'r ateb, ac y bydd angen rhoi terfyn ar raglen galedi Llywodraeth San Steffan i sicrhau y gall gwasanaethau cyhoeddus gael eu hariannu mewn ffordd gynaliadwy a digonol yn y dyfodol.



## **Gwybodaeth ychwanegol**

UNSAIN Cymru yw Undeb Llafur mwyaf y sector cyhoeddus, sy'n cynrychioli oddeutu 100,000 o weithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae UNSAIN Cymru, yn ogystal ag ymgyrchu dros ddiweddu caledi a thros Ariannu Teg i Gymru gan Lywodraeth San Steffan, hefyd yn ymgyrchu dros ddiogelu gwariant ar lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ac yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff gwasanaethau ein cynghorau, sy'n sicrhau bod ein cymunedau yn iach ac yn addysgedig eu diogelu

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

## Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Ionawr 2017

### Briff Ymchwil:

Deiseb P-05-730

Teitl y ddeiseb: Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

- Gynyddu cyfanswm cyllid (refeniw) allanol i awdurdodau lleol i o leiaf y lefelau hynny a oedd yn berthnasol yn 2013/14 mewn termau real.
- Cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n darparu 'pŵer cymhwysedd cyffredinol' i awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Annog awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau presennol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i rannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac i ymchwilio a masnachu drwy ddatblygu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cyflenwi i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r sector preifat yn fwy cyffredinol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ryddhau ffrydiau refeniw presennol drwy, er enghraifft, ailariannu neu ddisodli cynlluniau PFI ar delerau mwy ffafriol, gan ddefnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan gyfraddau llog hanesyddol isel.
- Ymgymryd â chefnogi gwaith y Comisiwn Annibynnol Materion Ariannol Llywodraeth Leol Cymru

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gweld gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau lleol yng Nghymru, ac rydym o'r farn, drwy weithredu'r camau hyn y gall Llywodraeth Cymru helpu i atal difrod pellach i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn lleol; er, rydym yn cydnabod fod y camau hyn yn ddim ond rhan o'r ateb, ac y bydd angen rhoi terfyn ar raglen galedi Llywodraeth San Steffan i sicrhau y gall gwasanaethau cyhoeddus gael eu hariannu mewn ffordd gynaliadwy a digonol yn y dyfodol.

## 1. Cyflwyniad

Llywodraeth Leol yw un o'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG) mwyaf i Lywodraeth Cymru ac yn y gyllideb ddiwethaf, derbyniodd y gwariant ail uchaf ar ôl y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Mae awdurdodau lleol yn derbyn y rhan fwyaf o'u cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad llywodraeth leol.

Fel y disgrifiwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru [Cydnherthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16](#), ers 2010 mae llywodraeth y DU wedi lleihau gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o'i chynlluniau i leihau'r diffyg yn y DU. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gyllidebau is ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yn golygu bod cyfanswm y Cyllid Allanol ar gyfer awdurdodau lleol wedi gostwng bob blwyddyn ers 2010.

## 2. Cyfanswm y Cyllid Allanol (refeniw) mewn awdurdodau lleol

Cyfanswm y Cyllid Allanol (AEF) yw'r enw a roddir i'r arian a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad. Mae hyn hefyd yn cynnwys trethi annomestig a ailddosbarthwyd.

Mae awdurdodau lleol yn derbyn y rhan fwyaf o'u cyllid refeniw drwy'r [Setliad Llywodraeth Leol](#), ac mae hyn yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu tua 80% o'r arian a ddyrennir i awdurdodau lleol. Dosberthir yr arian i awdurdodau lleol yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar angen.

Dyrannodd [Setliad Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol 2017-18](#) £4.1 biliwn o arian refeniw ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd setliad 2017-18 yn cynrychioli'r cynnydd arian parod cyntaf ers 2013-14. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn doriad mewn termau real mewn arian ar gyfer awdurdodau lleol.

## 3. Pŵer cymhwysedd cyffredinol

